WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Annwyl gydweithwyr

Graddfeydd ffioedd archwilio ac arolygu llywodraeth leol 2012-13

Yn cynnwys graddfeydd ffioedd am archwilio cyfrifon 2010-11 awdurdodau lleol, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, cronfeydd pensiwn a chynghorau cymuned

Mae'n ofynnol i mi ymgynghori ar y graddfeydd ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas ag archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru a'u rhagnodi. Mae hefyd yn ofynnol i mi ymgynghori ar y graddfeydd ffioedd mewn perthynas ag archwiliadau, asesiadau ac arolygiadau arbennig a gynhelir o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'u rhagnodi.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu fy nghynigion o ran graddfeydd ffioedd ar gyfer 2012-13. Rhoddir gwybodaeth fanylach yn yr atodiadau i'r llythyr hwn.

Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith y gall archwilwyr ei ddefnyddio i drafod ffioedd gyda chyrff llywodraeth leol a chytuno arnynt. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn fy ngalluogi i nodi a herio ffioedd yr ymddengys eu bod yn rhy uchel neu'n rhy isel i alluogi archwilwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n llawn.

Wrth ragnodi graddfeydd ffioedd rwy'n gwneud fy ngorau i sicrhau bod y ffioedd sy'n dod i law yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru, gan ystyried un flwyddyn gyda'r llall, i fantoli'r gyllideb o ran ei gwaith ym maes llywodraeth leol, ac nad oes unrhyw groes-gymhorthdal rhwng archwiliadau llywodraeth leol a'r rheini ar gyfer llywodraeth ganolog a GIG Cymru.

Mae pob corff sector cyhoeddus, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn wynebu'r her o barhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar adeg pan fo pwysau nas gwelwyd ei debyg o'r blaen ar arian cyhoeddus. Ar sail gronnus rhwng 2009-10 a 2012-13, rydym yn disgwyl cyflawni gostyngiad o bron 25 y cant yng nghyfanswm y gwariant cyhoeddus mewn termau real. Gwnaethom arbed dros £1 filiwn mewn arbedion untro a chylchol yn 2010-11 yn unig drwy leihau costau a gweithio'n fwy effeithlon mewn meysydd fel costau staff a gwariant TGCh. Roedd y raddfa hon yn eithriadol o ran arbedion yn ystod y flwyddyn ac ni ellir ei hailadrodd yn y dyfodol, ond rwy'n ymrwymedig i adolygu a herio ein gwariant a'n harferion gwaith yn barhaus i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith mor gost-effeithiol â phosibl, gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl.

Ar yr un pryd, ac i gydnabod y cyfyngiadau ariannol a wynebir gan gyrff sector cyhoeddus, rydym yn parhau i geisio gostwng ein ffioedd archwilio. Rhwng 2009 a 2011 gwnaethom gyflawni gostyngiad o £1.27 miliwn (wyth y cant) mewn termau arian parod yn y ffioedd a godwyd ar gyfer ein gwaith. Er bod gofynion cyfrifyddu a datgelu newydd y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a'r ffaith bod fersiwn cliriach o'r Safonau Archwilio Rhyngwladol wedi'i gyflwyno yn parhau i ychwanegu at lwyth gwaith archwilwyr, rydym yn parhau i liniaru'r effaith ar gyrff a archwilir drwy weithio'n fwy effeithlon yn hytrach na chodi ein ffioedd. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu ffyrdd o sicrhau lefelau uchel o sicrwydd cyhoeddus gan ddefnyddio llai o adnoddau, ac mae hyn yn cynnwys dibynnu mwy ar adolygiadau cadarn gan eraill a hunanasesiadau gan gyrff a archwilir.

Ar gyfer 2012-13, drwy arbed costau, cyfyngu cyflogau a bod yn fwy effeithlon, gallaf gynnig y diwygiadau canlynol i'm graddfeydd ffioedd a'r ystodau o gyfraddau ffioedd cysylltiedig:

- canolrifau graddfeydd ffioedd is ac ystodau ffioedd culach ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o gyrff llywodraeth leol (gweler Atodiad 1);
- ystodau cyfraddau ffioedd is ar gyfer gwaith y mae angen sgiliau, gwybodaeth a phrofiad penodol ac arbenigol i'w cyflawni (gweler Atodiad 2);
- ystod cyfraddau ffioedd is ar gyfer y rhan fwyaf o raddfeydd staff sy'n cyflawni gwaith mewn perthynas ag ardystio hawliadau a ffurflenni, a gostyngiadau i'r gyfran gymharol o uwch aelodau o staff a ddefnyddir ar gyfer gwaith o'r fath (gweler Atodiad 3); a
- dim codiad mewn graddfeydd ffioedd i gyfrif am chwyddiant, sydd wedi parhau rhwng dau a thri y cant er gwaethaf y sefyllfa economaidd barhaus (gweler Atodiad 4).

Gyda'i gilydd gallai fy nghynigion, fel yr amlinellir yn fy amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau (gweler Atodiad 4), gyflawni cylch arall o ostyngiadau ffioedd o hyd at bump y cant mewn termau arian parod dros y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, nid wyf yn disgwyl y bydd y gostyngiadau mewn ffioedd yn cael eu dosbarthu'n gyfartal; yn wir, mae'n ddigon posibl y bydd ffioedd rhai cyrff yn codi.

Bydd y posibilrwydd o unrhyw ostyngiadau mewn ffioedd yn dibynnu ar amgylchiadau pob corff lleol. Rhaid i'r ffi fod yn ddigonol i ariannu'r gwaith y mae angen ei wneud o ystyried yr amgylchiadau lleol megis yr amgylchedd llywodraethu, risg, trefniadau rheoli ariannol a threfniadau rheoli perfformiad, maint, cymhlethdod a hanes y corff o ran gwelliant. Os bydd angen gwneud gwaith perfformiad ychwanegol neu nas cynlluniwyd o ganlyniad i fethiannau gan gyrff a archwilir o ran darparu'r hyn sydd ei angen ar archwilwyr i wneud eu gwaith yn effeithlon, bydd angen codi ffioedd ychwanegol sy'n gymesur â'r gwaith ychwanegol dan sylw. Yn ein holl weithgareddau, rwy'n benderfynol y bydd ein gwaith yn rhoi gwybodaeth gadarn ac annibynnol i bobl Cymru am sut y caiff eu harian ei wario.

Bydd eich tîm archwilio lleol yn gallu darparu mwy o fanylion am ffioedd yn lleol.

Edrychaf ymlaen at gael eich sylwadau ar fy nghynigion o ran graddfeydd ffioedd erbyn dydd Gwener 2 Rhagfyr 2011.

Yn gywir

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiad 1

Graddfeydd ffioedd

Wrth wraidd y graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio blynyddol mae dull o gynllunio archwiliad sy'n seiliedig ar sero. Caiff gofynion o ran adnoddau eu trosi'n raddfeydd ffioedd sy'n uniongyrchol seiliedig ar gostau cyflawni'r gwaith, gan gynnwys trafnidiaeth a chynhaliaeth. Cyflwynir graddfeydd ffioedd arfaethedig 2012-13, sydd wedi cael eu meincnodi yn erbyn ffioedd a godir gan asiantaethau archwilio eraill yn y DU, ar ffurf tabl. Bellach mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar bennu ffioedd, gan gynnwys cynrychioliadau o raddfeydd ffioedd ar ffurf graff, ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, fel rhan o'm hymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw o ran y ffordd rwy'n gweithredu a'r ffordd rwy'n cyfathrebu â'r cyhoedd (gweler Atodiad 4 am ddolenni).

Mae gwaith archwilio blynyddol yn cynnwys yr holl waith a wneir mewn perthynas ag archwilio cyfrifon, astudiaethau, a gwaith asesu a wneir o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, lle y bo'n berthnasol.

Nid yw gwaith archwilio blynyddol yn cynnwys yr hyn sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, megis her etholwyr, adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith sy'n ymwneud ag atal gwariant anghyfreithlon (gweler Atodiad 2).

Mae graddfeydd ffioedd gwahanol hefyd yn gymwys i'r gwaith o ardystio hawliadau a ffurflenni mewn perthynas â grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a roddwyd i gyrff gwasanaethau llywodraeth leol (gweler Atodiad 3).

Bydd archwilwyr yn arddel eu barn broffesiynol, a lywir gan fy Nghod Ymarfer Archwilio, safonau cyfrifyddu ac archwilio perthnasol a chanllawiau a gyhoeddwyd ar fy rhan er mwyn pennu pa ffioedd sy'n gymwys i gorff penodol a archwilir o ystyried y math o gorff sydd dan sylw.

Lle na fydd ffioedd arfaethedig yn perthyn i'r raddfa ffioedd benodedig neu lle y byddant wedi newid mwy na ±10 y cant o flwyddyn i flwyddyn, byddaf yn adolygu'r ffioedd arfaethedig er mwyn sicrhau bod amgylchiadau perthnasol yn eu hesbonio'n ddigonol. Bydd hyn yn cyfyngu ar y posibilrwydd o weld ffioedd gormodol neu annigonol. Ar ôl cyflwyno'r rheolaethau hyn trafodir y ffi gyda'r corff perthnasol a archwilir ac, yn amodol ar unrhyw wybodaeth bellach sy'n effeithio ar y gwaith i'w gyflawni, fe'i cadarnheir fel y ffi i'w chodi ar y corff hwnnw.

Noder, gan fod trefniadau bilio ar gyfer y gwaith asesu Mesur eisoes ar waith ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben 31 Mawrth 2012, ni fydd y trefniadau hynny'n newid tan fis Ebrill 2012.

Nid yw'r graddfeydd ffioedd ar gyfer 2012-13 yn cynnwys TAW. Fe'i codir ar y gyfradd safonol fel y bo'n briodol.

Graddfa ffioedd 2012-13 ar gyfer awdurdodau unedol

Gwariant gros £000,000	Ystod ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	*Canolrif 2011-12*
100	157	196	235	*206*
200	192	242	291	*256*
300	216	273	330	*290*
400	235	298	361	*317*
500	251	319	387	*340*
600	265	337	409	*360*
700	277	353	429	*377*
800	288	367	447	*393*
900	298	381	464	*408*
1,000	307	393	479	*421*
1,100	316	404	493	*434*
1,200	324	415	507	*446*
1,300	331	425	519	*457*
1,400	339	435	531	*468*

Graddfa ffioedd 2012-13 ar gyfer cronfeydd pensiwn

Pob cronfa bensiwn	Ystod ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	*Canolrif 2011-12*
	20.0	27.5	35.0	*25*

Graddfa ffioedd 2012-13 ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol

Gwariant gros £000,000	Ystod ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	*Canolrif 2011-12*
1	10	12	15	*14*
2	13	17	21	*18*
3	15	20	24	*21*
4	17	22	27	*23*
5	19	24	30	*25*
6	20	26	32	*27*
7	21	28	35	*28*
8	23	30	37	*30*
9	24	31	38	*31*
10	25	32	40	*32*

Graddfa ffioedd 2012-13 ar gyfer awdurdodau tân ac achub

Gwariant gros £000,000	Ystod ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	*Canolrif 2011-12*
10	30	37	45	*39*
20	38	48	58	*51*
30	43	55	67	*59*
40	48	61	74	*65*
50	52	66	81	*71*
60	56	71	86	*76*
70	59	75	91	*80*
80	61	79	96	*84*
90	64	82	100	*88*
100	66	85	104	*91*

Graddfa ffioedd 2012-13 ar gyfer awdurdodau'r heddlu, ymddiriedolaethau prawf a mathau eraill o gyrff

Gwariant gros £000,000	Ystod ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	*Canolrif 2011-12*
1	8	10	12	*11*
5	15	19	23	*21*
10	19	25	31	*27*
25	28	36	45	*39*
50	37	48	59	*52*
100	48	63	78	*69*
150	57	75	92	*82*
200	64	84	104	*92*
250	70	92	114	*100*
300	75	99	122	*108*
350	80	105	130	*115*

Graddfa ffioedd 2012-13 ar gyfer cynghorau cymuned a mathau eraill o gyrff sydd ag incwm neu wariant o hyd at £1,000,000

Mae'r raddfa ffioedd ar gyfer awdurdodau'r heddlu, ymddiriedolaethau prawf a mathau eraill o gyrff yn gymwys i gynghorau cymuned a mathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae incwm neu wariant yn fwy nag £1 filiwn y flwyddyn.

Mae cynghorau cymuned a mathau eraill o gyrff llywodraeth leol sydd ag incwm neu wariant o hyd at £1 filiwn yn cael eu harchwilio ar sail 'sicrwydd cyfyngedig'. Dim ond newidiadau bach sydd wedi'u gwneud i'r ffioedd ar gyfer yr archwiliadau hyn, sy'n amrywio yn ôl trosiant blynyddol, ers i un o'n sefydliadau rhagflaenol, y Comisiwn Archwilio, gyflwyno'r trefniadau archwilio sicrwydd cyfyngedig yn 2001. Mae'r raddfa ffioedd wedi bod yn sefydlog ers 2007 ac nid yw'r ffioedd archwilio wedi cynyddu ar gyfer y cynghorau lleiaf ers 2001.

Er mwyn adlewyrchu cynnydd o ran costau cyflenwi dros y pum mlynedd diwethaf, rwyf wedi adolygu'r raddfa ffioedd archwilio ar gyfer cyrff llywodraeth leol llai ac yn cynnig y newidiadau canlynol ar gyfer 2012-13:

Incwm neu wariant blynyddol (bydd ffioedd yn daladwy ar ba un bynnag fydd uchaf bob blwyddyn)	**Math o archwiliad**	**Ffi arfaethedig**	***Ffi a godwyd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf***
£Dim – £1,000	Sylfaenol	Ni fydd ffi yn daladwy	*Ni fydd ffi yn daladwy*
£1,001 – £5,000	Sylfaenol	£60	*£50*
£5,001 – £10,000	Sylfaenol	£130	*£120*
£10,001 – £30,000	Sylfaenol	£150	*£135*
£30,001 – £60,000	Sylfaenol	£310	*£285*
£60,001 – £100,000	Sylfaenol	£425	*£400*
£100,001 – £200,000	Sylfaenol	£575	*£550*
£200,001 – £300,000	Canolradd	£920	*£875*
£300,001 – £400,000	Canolradd	£1,100	*£1,050*
£400,001 – £500,000	Canolradd	£1,520	*£1,450*
£500,001 – £750,000	Canolradd	£2,045	*£1,950*
£750,001 – £1,000,000	Canolradd	£2,625	*£2,500*

Gwariwyd cyfanswm o tua £182,000 ar archwiliadau sicrwydd cyfyngedig ar gyfer cyfrifon cynghorau cymuned Cymru ar gyfer 2009-10, sy'n cynrychioli 0.49 y cant o gyfanswm eu gwariant blynyddol. Byddai'r cynnydd bach a gynigir gennyf yn cynyddu cyfanswm y ffioedd archwilio i tua £195,000, sy'n cynrychioli 0.54 y cant o gyfanswm y gwariant blynyddol.

Dros y 12 mis nesaf, byddaf yn adolygu effeithiolrwydd y gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig o ystyried y materion diweddar a nodwyd gan archwilwyr penodedig ledled Cymru, a byddaf yn ymgynghori ar y trefniadau archwilio ar gyfer 2013-14 a blynyddoedd i ddod. Byddaf yn ystyried y raddfa ffioedd archwilio ar gyfer 2013-14 a blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar unrhyw gasgliadau y dof iddynt o'r adolygiad.

Atodiad 2

Ffioedd ar gyfer caffael sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol

Mewn rhai amgylchiadau gall fod angen defnyddio unigolion â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol, gan gynnwys rhai ar waith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, megis her etholwyr, archwiliad anghyffredin, arolygiadau arbennig a gwaith ychwanegol mewn perthynas ag atal gwariant anghyfreithlon. Mae'n hanfodol bod unigolion â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol priodol yn cael eu defnyddio i wneud gwaith mwy cymhleth yn ôl yr angen. Mae'n anochel yr eir i gostau ychwanegol.

Er mwyn hwyluso'r defnydd o ffioedd nad ydynt yn safonol, rwyf wedi pennu'r ystodau cyfraddau ffioedd canlynol ar gyfer 2012-13 fel sail i drafodaethau lleol. Caiff y cyfraddau ffioedd gwirioneddol a godir eu pennu mewn trafodaeth rhwng yr archwilydd penodedig/arweinydd ymgysylltu a'r corff er mwyn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol.

Graddfa staff	Cyfradd ffioedd fesul awr heb gynnwys TAW yn 2012-13	*Cyfradd fesul awr yn 2011-12*
Archwilydd penodedig/arweinydd ymgysylltu	£137 i £261	*£183 i £275*
Rheolwr archwiliad/prosiect	£98 i £131	*£112 i £156*
Arweinydd tîm/uwch archwilydd	£69 i £92	*£80 i £97*
Aelodau eraill o staff	£54 i £67	*£51 i £69*

Efallai y bydd cyfraddau uwch yn briodol ar gyfer darnau penodol o waith. Mewn amgylchiadau o'r fath rhaid i'r archwilydd ymgynghori â mi ymlaen llaw.

Ffioedd am waith atodol

Gall cyrff a archwilir wneud trefniadau gyda mi i'r archwilydd penodedig (neu fi fy hun) gyflawni gwaith penodol nad yw'n rhan o'n dyletswyddau cyffredinol.

Ni ddylid cymeradwyo gwaith o'r fath os yw'n golygu y caiff fy annibyniaeth ac uniondeb i, neu annibyniaeth ac uniondeb yr archwilydd, eu peryglu, neu os canfyddir y gellid eu peryglu oni ellir rhoi mesurau lliniaru a rheolaethau priodol ar waith.

Os yw'n bosibl cyflawni gwaith o'r fath o fewn y rheolau hyn, rhaid i'r ffioedd perthnasol gael eu negodi rhyngof i a'r corff a archwilir ac nid yw'r graddfeydd na'r cyfraddau a nodir yn y llythyr hwn yn gymwys iddynt.

Atodiad 3

Ffioedd ar gyfer y gwaith o ardystio hawliadau grant a ffurflenni

Wrth gyflawni gwaith ar hawliadau grant y llywodraeth a ffurflenni eraill o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae archwilwyr penodedig yn gweithredu ar fy rhan. Mae'n ofynnol i mi, mewn perthynas â phob grant neu ffurflen, adennill swm sy'n cwmpasu cost lawn y gwaith perthnasol a gyflawnwyd.

Telir am y gwaith hwn per diem a bydd y gost yn seiliedig ar yr ystodau cyfraddau ffioedd a nodir isod. Rhoddir hefyd amcangyfrifon o gyfrannau perthynol y graddfeydd staff i'w defnyddio ar gyfer y mathau gwahanol o waith ar grantiau; mae cyfran yr uwch aelodau o staff y dylid ei defnyddio ar gyfer gwaith o'r fath wedi gostwng yn unol â'm strategaeth newydd ar gyfer trefniadau'r gwasanaeth archwilio allanol i ardystio gwariant a ariennir drwy grantiau mewn modd mwy costeffeithiol ledled Cymru (gweler Atodiad 4).

Bydd yr archwilydd yn trafod y ffi wirioneddol i'w chodi gyda'r corff a archwilir. Bydd y ffi yn adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

Graddfa staff	Cymsgedd staff o ran grantiau cymhleth %	Cymysgedd staff o ran pob grant arall %	Cyfradd ffioedd fesul awr heb gynnwys TAW yn 2012-13	*Cyfradd fesul awr yn 2011-12*
Archwilydd penodedig/ arweinydd ymgysylltu	1 i £2	0 i £1	£137 i £220	*£183 i £229*
Rheolwr archwiliad/prosiect	4 i £6	1 i £2	£98 i £123	*£112 i £134*
Arweinydd tîm/uwch archwilydd	18 i £21	12 i £16	£69 i £86	*£80 i £89*
Staff arall	77 i £71	87 i £81	£54 i £67	*£51 i £69*

Y grantiau cymhleth dan sylw yw:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor;
- EUR01 2007-13 Rhaglen Cronfeydd Strwythurol (Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol);
- HOU03 Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (awdurdodau nad ydynt yn trosglwyddo stoc);
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol; a
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon.

Atodiad 4

Chwyddiant

Eleni nid wyf yn cynnwys codiad am chwyddiant yn y graddfeydd ffioedd arfaethedig. Drwy anwybyddu chwyddiant fel rhan o'r broses o bennu graddfa ffioedd eleni bydd cyrff llywodraeth leol yn cael budd pellach sydd oddeutu dau i dri y cant (yn ôl data diweddaraf cyfres dadchwyddo CMC Trysorlys EM), a gwmpesir gan archwilwyr.

Dolenni defnyddiol

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am bennu ffioedd a'n graddfeydd ffioedd cyfredol, gan gynnwys graffiau o raddfeydd ffioedd (yn cynnwys data meincnodi priodol yn ôl yr angen).

Cliciwch yma am ddolen i'm *Cod Ymarfer Archwilio* ynghyd â dogfennaeth gysylltiedig gan gynnwys datganiadau o gyfrifoldebau.

Cliciwch yma am ddolen i'm *Hamcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2013*, a gyflwynais i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar 11 Hydref 2011.

Cliciwch yma am ddolen i'm *Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon archwiliedig 2010-11*.

Cliciwch yma am ddolen i'm hymgynghoriad ar *Strategaeth Grantiau* Swyddfa Archwilio Cymru a'm hymateb i'r ymgynghoriad.